Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 7fed o Chwefror 2019.

1 Presennol – Edward Evans (Cadeirydd) Richard Parry – Bryncir, John Jones, Clifford Williams, Anwen Humphreys – Garndolbenmaen, Gwilym Evans, Richard Williams – Prenteg, Huw Pritchard – Pentrefelin, Megan Ll Williams Amanda N Owen – Golan, Cynghorydd Stephen Churchman.

2 Ymddiheuriadau – Delyth Evans, Meinir Raine, Gwenno Huws, Maldwyn Owen, Eifion Williams, Dafydd Thomas, Cynghorydd Alwyn Gruffydd.

3 Ddim yn bresennol- neb.

4 Datgan buddiant – Eitem 14 Gwilym Evans, Megan Ll Williams, Amanda N Owen, Richard Parry, Stephen Churchman.

5 Cywirdeb y cyn-gofnodion – 3/1/19. Richard Parry yn datgan eu cywirdeb a John Jones yn eilio.

6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Tai Bro Gwgan- derbyniwyd ateb gan Ian Roberts Grŵp Cynefin. Eglurwyd nad oedd y tai wedi eu paentio oherwydd fod y rendr angen anadlu. Maent yn disgwyl i'r cwmni sydd yn datblygu'r math yma o rendr i ymweld â'r stad i drafod pa fath o driniaeth fyddai'n addas. Clerc i holi os yw'n bosib i un o'r Cynghorwyr Cymuned fod yn bresennol yn y cyfarfod.

Archwiliad Allanol

Derbyniwyd e-bost yn egluro fod y ffioedd a godir yn adlewyrchu'r amser mae'n cymryd i gwblhau'r archwiliad. Yn 2017/18 roedd cynnydd yn yr amser a gafodd ei dreulio i wneud y gwaith. Penderfynwyd cysylltu eto i holi pam nad yw pob Cyngor Cymuned wedi gweld cymaint o gynnydd yn y ffi a godir.

Golau Stryd Bron Awen, Prenteg

Cyngor Gwynedd yn parhau gyda'i ymholiadau i ddarganfod pwy yw perchennog y tir. Os nad ydynt yn llwyddo, byddant yn torri'r coed.

Materion Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd

Bryncir – lôn yn rhoi. Nid yw'r diffyg yn cyfiawnhau unrhyw waith adfer ar hyn o bryd. Mi fydd y sefyllfa yn cael ei fonitro.

Glandwyfach – marciau'r ffordd wedi eu hadnewyddu yn y cyffordd.

Penmorfa – gwteri wrth Tŷ Mawr wedi eu glanhau.

'Vehicle Activated Sign' – wedi ei dynnu oddi yno. Trosglwyddwyd yr ymholiad i swyddogion Llywodraeth Cymru i weld oes ganddynt gynlluniau eraill yno.

Drych dros y ffordd i fynedfa Ty'n Llan wedi ei droi i'r ongl gywir a'i dynhau.

Glanhau'r Stryd – Garndolbenmaen a Prenteg gwaith heb ei wneud. Clerc i gysylltu eto gyda'r Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd.

Canolfannau Iaith - Derbyniwyd llythyr gan Garem Jackson, Pennaeth Addysg yn egluro y bydd yr holl sylwadau a dderbynnir yn sgil yr ymgynghoriad yn cael eu hystyried cyn gwneud unrhyw benderfyniad ar y ffordd ymlaen.

Prenteg Cyffordd B4410 (carreg ar wyneb y lôn) - Derbyniwyd galwad ffôn gan swyddog o'r Adran Priffyrdd yn ymddiheuro am beidio ymateb i lythyr y Cyngor Cymuned. Bwriedir trafod hefo'r Adran Drafnidiaeth a hwyrach rhoi marciau newydd yno.

7 Mynwentydd

Mynwent Bethel

Angen clirio sbwriel. Clerc i gysylltu hefo'r contractwr i ofyn iddo fynd yno a hefyd i gael rhestr o'r dyddiadau eraill mae'n bwriadu mynd yno cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Er bod y contractwyr presennol yn fodlon parhau gyda'r gwaith o dorri'r mynwentydd, penderfynwyd gofyn i 2 gontractwr arall am brisiau ar gyfer Bethel, Cwm Pennant a Phrenteg. Gwilym Evans yn cynnig a Richard Williams yn eilio.

8 Llwybrau Cyhoeddus

Derbyniwyd cadarnhad gan Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, Cyngor Gwynedd y bydd y cyfraniad tuag at gostau cynnal llwybrau cyhoeddus yn parhau ar gyfer 2019/20.

Llwybr Canolfan Golan - penderfynwyd derbyn y pris o £40 am dorri'r llwybr. Mae Dewi Wyn Owen wedi cysylltu gydag aelod o Bwyllgor Canolfan Golan ynglŷn â'r difrod i'r wal.

Llwybr Rhif 90 Pant Rhedyn – Tŷ Mynydd - Ers i Gyngor Gwynedd atgyweirio'r wal a gosod giatiau pren bob pen, mae'r llwybr yn cau hefo drain. Cadeirydd am gysylltu gyda pherchennog y tir cyfagos

9 Adroddiad Pentrefi

Pentrefelin – lloches bws ger yr hen Swyddfa Bost. Derbyniodd y Cynghorydd Stephen Churchman lythyr gan un o'r trigolion yn holi oedd yn bosib gosod lloches yn y lleoliad. Derbyniwyd cais tebyg yn 2016 ac yn dilyn cyfarfod safle, penderfynwyd nad oedd y safle yn addas. Trafodwyd y syniad o osod y lloches ar ôl Mor Awelon a Coedmor. Clerc i gysylltu gydag Adran Rheoleiddio Trafnidiaeth a Gofal Stryd Cyngor Gwynedd.

Materion ail-gylchu

Prenteg – bin gwyrdd yn cael ei adael o flaen London Terrace.
Garndolbenmaen – bocsys glas yn cael ei gadael allan o London Road at Nant Heddwch.

Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

Gadawodd y Cynghorydd Stephen Churchman yr ystafell.

Garndolbenmaen

Cymdeithas Gymunedol Garndolbenmaen - adroddwyd fod y cais am gymorth ariannol wedi ei yrru at y Cynulliad. Derbyniwyd llythyrau o gefnogaeth gan Liz Saville Roberts AS a Rhun ap Iorwerth AC. Hefyd, gobeithir cydweithio gyda Grŵp Cynefin.

Dychwelodd y Cynghorydd Stephen Churchman i'r ystafell.

Lôn Capel Isaf - yn dilyn cais a wnaethpwyd ym mis Mai 2017, Clerc i gysylltu gyda'r Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad Cyngor Gwynedd i holi oes cynllun gwelliant wedi ei baratoi.

Biniau Halen

Yn ystod tywydd garw mis Ionawr, derbyniodd y Cyngor Cymuned gwyn gan un o'r trigolion am gyflwr peryglus y lôn a bod y bin halen cyfagos yn wag.

Yn 2015, rhoddwyd cynnig i'r Cyngor Cymuned gymryd drosodd y cyfrifoldeb o lenwi'r biniau o 1af Ebrill 2016. Cafwyd amcangyfrif y byddai'r gost o lenwi bin unigol a chost o'i ail-gyflenwi yn ystod tymor y gaeaf yn £156. I lenwi'r 37 bin yn y Gymuned, byddai'r gost wedi bod yn £5,772.

Penderfynodd y Cynghorwyr yn unfrydol nad oeddent am dderbyn y cais i drosglwyddo'r cyfrifoldeb iddynt. Y prif resymau oedd diffyg arbenigedd, diffyg adnoddau a hefyd materion iechyd a diogelwch.

Yn dilyn trafodaeth, ac er bod lleihad yn y gost o lenwi'r biniau, penderfynwyd bod y rhesymau uchod yn dal yn ddilys. Amanda N Owen yn cynnig a Megan Ll Williams yn eilio. Clerc a'r Cynghorydd Stephen Churchman am gysylltu hefo'r Adran Priffyrdd.

10 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod blynyddol

Penderfynwyd cynnal y Cyfarfod Blynyddol yn Neuadd Prenteg. Clerc i gysylltu gydag ysgrifennydd y Neuadd.

11 Hyfforddiant Côd Ymddygiad

Derbyniwyd e-bost gan Sïon Huws, Uwch Gyfreithiwr, Cyngor Gwynedd yn cadarnhau ei bod yn gallu darparu hyfforddiant ar gyfer 10 - 20 o fobl. Clerc i gysylltu i holi os yw 21 Mawrth neu 11 o Ebrill yn ddyddiadau cyfleus.

12 Polisi Gosod Tai

Trafodwyd yr ymgynghoriad sydd ar y gweill gan Gyngor Gwynedd. Bwriedir rhoi ceisiadau ar gyfer gosod tai mewn band penodol sy'n adlewyrchu cysylltiad ymgeiswyr gyda Gwynedd. Clerc i gysylltu gyda

Chyngor Gwynedd i gael esboniad llawn o be olygir gyda'r term 'cysylltiad gyda Gwynedd'.

13 Diffibriliwr Bryncir

Derbyniwyd e-bost gan berson ifanc sy'n byw ym Mryncir, yn holi os fydda'r Cyngor Cymuned yn gallu gwneud cyfraniad ariannol i'w hymgyrch i godi arian i brynu diffribriliwr i'r pentref.

Penderfynwyd ei llongyfarch ar ei hymdrechion, ond nid oedd yn bosib i'r Cyngor wneud cyfraniad oherwydd ni dderbyniwyd yr e-bost cyn dyddiad cau'r ceisiadau am arian. Hefyd, petai ceisiadau yn cael eu derbyn gan bentrefi eraill o fewn y gymuned, ni fyddai gan y Cyngor y modd ariannol i gyfrannu at bob un. Gall y Cynghorwyr, fel unigolion, ddewis i wneud cyfraniad i'w hymgyrch.

14 Rhoddion ariannol

Penderfynwyd rhoi cyfraniad ariannol i'r mudiadau canlynol - £300 Neuaddau Garndolbenmaen, Golan, Penmorfa, Prenteg a Pentrefelin; £250 Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Madog; £150 Eisteddfod Garndolbenmaen a'r Cylch, Cylch Meithrin Tremadog; £100 Cylchwyl Lenyddol a Cherddorol Glannau Dwyfach, Cymdeithas Gymunedol Garndolbenmaen, Llyfrau Llafar Cymru.

15 Gohebiaeth

Llythyrau gan Cyngor Gwynedd -

a Adolygiad Cludiant – cynnwys y wybodaeth yn yr Adroddiad i'r Wasg. Gohebiaeth Ychwanegol
b Llythyr Ffermwyr Ifanc Eryri
c Parc Cenedlaethol Eryri – Cynllun Datblygu Lleol Eryri Diwygiedig. Cyhoeddi adroddiad yr arolygydd – er gwybodaeth.
ch Garddwest Palas Buckingham – gwahoddiad i'r Cadeirydd/cyn-Gadeirydd.

16 Cynllunio

Rhestrau 4/1/, 14/1, 21/1/19. Ychwanegwyd 4/2/19.

Ceisiadau Cynllunio

NP2/16/108F Cais ôl weithredol i ddefnyddio'r uned llety gwyliau presennol yn ddwy uned hunan gynhaliol. Plas y Pennant, Cwm Pennant. Dyddiad cau 1/2/19. Dim gwrthwynebiad.
NP2/16/108G Cais ôl weithredol i ddefnyddio anecs fel uned wyliau hunain gynhaliol. Plas y Pennant, Cwm Pennant. Dyddiad cau 1/2/19. Dim gwrthwynebiad.
C18/1022/36/LL Cynllun diwygiedig. Codi sied amaethyddol ar gyfer cadw defaid yn y gaeaf ac yn ystod cyfnod wyna. Tir ger Clawdd Rhos Golan LL51 9YY. Dim gwrthwynebiad i'r lleoliad newydd.

17 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian: dim.

Monitro'r gyllideb: Gwiriwyd y llyfrau am y cyfnod 1/10 – 31/12/18 gan Gwilym Evans a Richard Williams. Cafwyd yn gywir.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	=	£ 237.99
Ffôn	=	£ 10.00
Cyfrifiadur	=	£ 15.00
HMRC	=	£ 59.40
Idris Jones	=	£1080.00
Y Ffynnon	=	£ 14.00
Gwasg y Bwthyn	=	£ 11.04
Rhoddion ariannol	=	£2350.00

Derbyniadau: Pritchard a Griffiths £220.00
H O Davies £220.00

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,793.27 Cyfredol £7115.94

18 Dewis gohebiaeth i fynd i'r wasg/gwefan

- Rhoddion ariannol
- Polisi Gosod Tai
- Arolwg Cludiant
- Biniau halen
- Cais Cynllunio